
# Byw mewn Tai Cydweithredol a dan Arweiniad y Gymuned yn ystod COVID

CRYNODEB GWEITHREDOL (TACHWEDD 2020)



Wales Co-operative Centre
Canolfan Cydweithredol Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nationwide Foundation

DEVELOPMENT TRUSTS ASSOCIATION WALES
CYMDEITHAS YMDDIRIEDOLAETHAU DATBLYGU CYMRU
Community Enterprise | Community Assets
Menter Gymunedol | Asedau Cymunedol

# Cynnwys


## 1. Cyflwyniad a Methodoleg

## 2. Byw mewn CCLH yn ystod COVID: Effeithiau Cadarnhaol

ASTUDIAETH ACHOS #1: Bywyd mewn CCLH yn ystod y Pandemig (Trefol)

## 3. Byw mewn CCLH yn ystod COVID: Effeithiau Negyddol

ASTUDIAETH ACHOS #2: Bywyd mewn CCLH yn ystod y Pandemig (Trefwr)

## 4. Anghenion Cymorth Ychwanegol a Nodwyd a Gwersi a Ddysgwyd

ASTUDIAETH ACHOS #3: Bywyd mewn CCLH yn ystod y Pandemig (Gwledig)

## 5. Casgliad ac Argymhellion




# 1. Cyflwyniad a Methodoleg

**"Oherwydd ein strwythur cymunol, credaf ein bod wedi bod yn fwy cydnerth wrth ddelio gydag effeithiau negyddol y pandemig."**

**Preswylydd CCLH, 3+ blynedd mewn cynllun**

Mae'r adroddiad canlynol yn nodi manylion profiadau preswylwyr o fyw mewn tai cydweithredol a dan arweiniad y gymuned (CCLH) yng Nghymru yn ystod pandemig y coronafeirws yn 2020.

Fe'i comisiynwyd gan Ganolfan Cydweithredol Cymru ac fe'i paratowyd gan Social Effectiveness Research Centre.

Mae Canolfan Cydweithredol Cymru wedi bod yn gweithio er 1982 i gryfhau a grymuso cymunedau yng Nghymru trwy gynorthwyo twf cwmnïau cydweithredol a mentrau cymdeithasol, yn ogystal â thrwy gyflawni prosiectau ar y cyd sy'n darparu sgiliau ac sy'n mynd i'r afael ag allgáu.[1]

Fel rhan o'r gwaith hwnnw, cynhaliwyd ei Brosiect Tai Cydweithredol rhwng mis Medi 2013 a mis Mawrth 2019, gan gynnig cymorth a chyngor i sefydliadau newydd a sefydliadau sy'n bodoli eisoes a oedd yn dymuno datblygu cynlluniau CCLH yng Nghymru. Cychwynnodd olynydd y prosiect hwn, rhaglen Cymunedau'n Creu Cartrefi newydd y Ganolfan ym mis Ebrill 2019.[2]

Mae Social Effectiveness Research Centre yn gymdeithas nid er elw sy'n gweithio i sefydlu a chynyddu effaith gwaith a wneir gan brosiectau a sefydliadau cymdeithasol yn y DU. Mae'r adroddiad hwn yn dilyn darn mwy o ymchwil a gwblhawyd yn 2019 cyn dyfodiad y coronafeirws, a oedd yn dadansoddi'r manteision posibl yn fwy cyffredinol o fyw mewn CCLH i breswylwyr yng Nghymru.

Yn yr adroddiad blaenorol hwnnw, roedd preswylwyr cynlluniau CCLH wedi nodi ystod fawr o fanteision sy'n deillio o fyw yn eu cynlluniau, yn eu geiriau eu hunain.

Roedd y rhain yn cynnwys:

- Sgiliau gwell
- Mwy o hyder
- Iechyd corfforol gwell
- Iechyd meddyliol gwell
- Sefyllfa ariannol well
- Llai o unigrwydd/arwahanrwydd
- Mwy o ymdeimlad cymunedol
- Yn gallu byw mewn ffordd sy'n cyd-fynd yn well gyda'u gwerthoedd a'u hamgylchedd.[3]

Fel yr oedd yr adroddiad hwnnw yn nodi hefyd, ceir sawl diffiniad o CCLH a'r cysyniadau sy'n rhan ohono, megis 'cyd-drigo' neu dai 'cydweithredol' neu 'a arweinir gan y gymuned'. Mae'r ymchwil hwn, fel yr oedd yr adroddiad blaenorol yn ei wneud hefyd, yn defnyddio'r diffiniadau a luniwyd gan raglen 'Cefnogi Tai a Arweinir gan y Gymuned' gan Sefydliad Nationwide, sy'n diffinio hyn fel unrhyw gynllun tai sy'n cynnwys "cymunedau sy'n cyflawni rôl arweiniol wrth ddarparu datrysiadau tai i bobl mewn angen". [4]



Fel y mae rhaglen Nationwide yn amlinellu:

**"Ceir sawl ffurf, siâp a maint o ran cynlluniau tai a arweinir gan y gymuned. Gallant adeiladau cartrefi newydd, creu cartrefi o eiddo gwag, diogelu cartrefi gweddus a fforddiadwy sy'n bodoli eisoes a darparu cartrefi o bob math o ddeiliadaeth. Rydym yn gwybod y bydd dyfnder cysylltiad y gymuned yn amrywio, felly efallai na fydd rheolaeth a gweithrediad y sefydliad neu'r prosiect yn rhan o gyfrifoldeb y gymuned. Fodd bynnag, mae o'r pwys pennaf bod anghenion a safbwyntiau cymunedau wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau."** [5]

Ar gyfer yr ymchwil hwn, arolygwyd sampl o 16 o breswylwyr CCLH o dros 10 o wahanol gynlluniau CCLH yng Nghymru trwy gyfrwng holiadur ar-lein lled-strwythuredig, a cwblhawyd pum cyfweliad dilynol o bell hefyd er mwyn darparu gwybodaeth fanwl ar lefel astudiaeth achos i gyd-fynd â'r ymatebion cychwynnol.


Roedd mathau y cynlluniau yn y sampl yn cynnwys tai cydweithredol, cynlluniau cyd-drigo, Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol a chynlluniau Hawl Rheoli. Ni ellir nodi union nifer y cynlluniau yn y sampl, oherwydd y cynigiwyd y dewis i gyfranogwyr ymateb yn ddienw pe byddent yn dymuno, ac os felly, dim ond yr ardal fras yng Nghymru lle y lleolir eu cynllun yr oedd angen iddynt ei nodi (Gogledd, De, Canolbarth neu Orllewin). Manteisiodd tri ymatebwr ar y dewis hwn, ac ni fu modd gweld o'u hatebion a oeddent yn dod o gynlluniau lle'r oedd preswylydd arall (heb fod yn ddienw) wedi cymryd rhan yn yr ymchwil hefyd. Felly, yr unig beth y gellir ei wneud yw nodi bod nifer derfynol y cynlluniau yn y sampl yn isafswm o 10 ac yn uchafswm o 13, a bod gwasgariad daearyddol cymharol fras ar draws Cymru.

Sylwer hefyd fod rhai manylion daearyddol, manylion demograffig neu fanylion eraill y gallent gael eu defnyddio i adnabod cynlluniau


unigol, wedi cael eu newid neu eu tynnu allan o'r adroddiad hwn er mwyn diogelu cyfrinachedd yr holl ymatebwyr.  Mae pob enghraifft, dyfyniad ac astudiaeth achos a ddefnyddir, fodd bynnag, yn atgynyrchiadau manwl a chywir o'r ymatebion a roddwyd gan gyfranogwyr unigol yn ystod yr ymchwil hwn.

O ran methodoleg, roedd yr ymchwil wedi mabwysiadu dull damcaniaeth-seiliedig, gan roi ffocws penodol ar helaethu profiadau preswylwyr CCLH o'r pandemig yn uniongyrchol.  Roedd yr ymchwil wedi defnyddio techneg Newid Mwyaf Arwyddocaol hefyd yn ystod ei gwestiynau cyfweld, ac wrth ddewis pa rai o straeon ei gyfranogwyr i'w defnyddio fel astudiaethau achos.  Fel darn ymchwil damcaniaeth-seiliedig, ac unwaith eto, fel gyda'r darn mwy o ymchwil o'r flwyddyn flaenorol, roedd y prosiect wedi mabwysiadu dull ansoddol yn fwy na dim, yn unol â diddordeb arbennig Canolfan Cydweithredol Cymru mewn casglu'r canlyniadau mwy meddal, ond anos i'w mesur, sy'n codi i unigolion a chymunedau o ganlyniad i CCLH.  Dadansoddwyd data meintiol a gynhyrchwyd trwy'r ymchwil pan fo hynny'n berthnasol, ond nid hwn fu ei brif ffocws.

Mae'r adroddiad canfyddiadau canlynol yn cychwyn trwy ystyried y manteision tybiedig a oedd yn creu crynswth yr effeithiau a adroddwyd gan ymatebwyr.  Yna, mae'n ystyried y nifer llawer llai o anfanteision tybiedig a adroddwyd, cyn mynd ymlaen i drafod yr anghenion cymorth yr oedd ymatebwyr yn teimlo eu bod wedi codi o ganlyniad i'r pandemig, yn ogystal â'r prif wersi yr oeddent yn teimlo eu bod wedi eu dysgu ohono.  Yn olaf, mae'n gorffen gydag argymhellion sy'n deillio o'r ymchwil fel y gellir cymryd camau pellach posibl er mwyn cynorthwyo preswylwyr CCLH yng Nghymru.



Efallai mai un o'r ychydig ffyrdd y gallai natur eang a pharhaus argyfwng COVID fod yn un cadarnhaol yw os craffir yn fwy nag erioed o'r blaen ar y berthynas rhwng ffurfiau tai a lles.  Felly, mae'r adroddiad hwn yn cychwyn trwy ystyried yr agweddau cadarnhaol ar y berthynas honno.





# Byw mewn CCLH yn ystod COVID: Effeithiau Cadarnhaol

**“Rydw i’n teimlo’n ffodus iawn fy mod i wedi bod yma yn ystod y cyfnod clo, oherwydd yr wyf wedi teimlo fy mod wedi cael fy niogelu a’m cynorthwyo, fel arall, byddwn i wedi bod ar ben fy hun yn llwyr. Mae’r cymorth wedi bod yn gorfforol ac yn seicolegol, ac mae gennyf le i symud ynddo. Mae gennym brofiad o barchu dymuniadau ein gilydd, a helpodd gyda chadw pellter cymdeithasol. Credaf bod y pethau hyn yn unigryw i gyd-drigo.”**

Gan ddechrau gydag effeithiau cadarnhaol byw mewn CCLH yn ystod pandemig y coronafeirws, nododd pob ymatebwr ond un yn yr ymchwil o leiaf un effaith. Yn amlach, roedd pob cyfranogwr wedi nodi sawl mantais yr oeddent wedi ei gweld yn ystod y pandemig a’r cyfnod clo dilynol, na fyddent wedi bod yn bresennol pe baent wedi bod yn byw mewn math arall o dai.

Yn feintiol, mae’r mathau o fanteision a nodwyd fel a ganlyn:



Gan gychwyn gydag un o'r categorïau mwyaf, roedd llai o arwahanrwydd cymdeithasol ac unigrwydd, a mwy o gymorth cymdeithasol yn gyffredinol o ganlyniad i fyw mewn CCLH, yn un o'r manteision a nodwyd amlaf, gyda bron i un o bob tri ymatebwr yn cyfeirio at y fantais hon.

Roedd y preswylydd a ddyfynnwyd ar ddechrau'r adroddiad canfyddiadau hwn yn un enghraifft o'r fath, gan gyfeirio at yr "agwedd arwahanrwydd ac iechyd meddwl" yn arbennig fel ffordd yr oeddent yn teimlo bod strwythur cymunol eu CCLH wedi peri i'w breswylwyr deimlo'n fwy cydnerth yn wyneb yr agweddau negyddol ar y pandemig. Ar lefel gymdeithasol, ychwanegont hefyd bod "cyfathrebu da ac ymwybyddiaeth o angen ein gilydd yn fantais – i lefel na fydden yn ei ddisgwyl gan eich cymuned arferol mewn cymdogaeth".

This "maintaining sociality" (to quote another participant in the research) sometimes went hand in hand with reduced psychological or mental Roedd ymatebwyr eraill hefyd wedi cyfeirio at fwy o ymwybyddiaeth ar y ddwy ochr o ffurfio'r gymhariaeth gyda ffurfiau byw llai cymunol. Er enghraifft, yn ystod y cyfnod clo yn eu cynllun nhw, arsylwodd un preswylydd "i aelwydydd un person, mae wedi bod yn llawer llai unig nag y gallai fod wedi bod", gan nodi bod "un aelod sydd â phroblemau gyda'u cof wedi cael llawer o help a chymorth na fyddai wedi bod yn bosibl mewn math arall o dai".

Weithiau, roedd y "cynnal cymdeithasoldeb" hwn (gan ddyfynnu cyfranogwr arall yn yr ymchwil) yn mynd law yn llaw gyda llai o ofid seicolegol neu feddyliol yn fwy cyffredinol. Roedd hon yn thema yr oedd ymatebwyr niferus wedi cyfeirio ati. Yng ngeiriau un cyfranogwr:

**"Bu'n anodd iawn i nifer o bobl a oedd wedi wynebu'r pandemig ar eu pen eu hunain. Fel aelwyd, roeddem yn gallu cynorthwyo ein gilydd mewn ffordd ymarferol ac emosiynol. Byddem oll wedi cael anhawster mewn gwahanol sefyllfa. Wedi dweud hynny, roedd yr ansicrwydd a achoswyd gan hyn oll wedi creu sawl tensiwn yn ein cymuned hefyd, nad oeddem wedi bod yn ymwybodol ohonynt o'r blaen."**

Roedd un preswylydd o wahanol ran o'r wlad wedi rhoi crynodeb symlach o'r profiad o fyw mewn cynllun CCLH yn ystod y pandemig: "roedd ychydig yn rhyfedd ar y dechrau, ond roedd hi'n braf cael teulu mawr o'm cwmpas – nifer fawr o bobl i fod gyda nhw". Fel arfer, gwelwyd yr agwedd gymdeithasol hon yn codi o natur CCLH mewn ffordd anochel; fel y dywedodd ymatebwr arall o'r un rhan o Gymru, "byddai'n amhosibl gweithredu fel pe baem wedi ein gwahanu o gyd-aelodau'r tai cydweithredol gan ein bod mor agos iddynt ac oherwydd ein pryderon a'n cyfrifoldebau ar y cyd". O ganlyniad i hyn, yn eu barn nhw, yn eu cynllun nhw, roedd y cyfnod clo wedi bod "yn brofiad llawer llai unig ac ar wahân nag y mae wedi bod i fwyafrif y bobl arall".

Roedd y themâu llai amlwg hyn o gymorth cymdeithasol yn mynd yn law yn llaw gyda'r fantais y soniwyd amdani fwyaf hefyd: y cymorth ymarferol mwy sydd ar gael wrth fyw mewn CCLH o'i gymharu gyda ffurfiau eraill o dai. Gallai'r cymorth ymarferol hwn fod ar lefel sylfaenol iawn – er enghraifft, amlinellodd un ymatebwr sut yr oeddent yn eu cynllun nhw "wedi penderfynu y byddem yn byw fel un aelwyd gan ein bod yn rhannu adnoddau a bwyd".

Fel arfer, roedd y cymorth ymarferol a oedd ar gael yn ymestyn i weithgareddau ymhell y tu hwnt i fwyd, fodd bynnag. Cyfeiriodd un ymatebwr arall, er enghraifft, at "fwy o gymorth cymunol a gweithgareddau ar y cyd (chwaraeon, celf, ac ati) wrth gadw pellter cymdeithasol" fel mantais allweddol o fod mewn CCLH yn ystod pandemig y coronafeirws. Yn yr un modd, rhestrodd ymatebwr o wahanol ran o'r wlad fanteision a oedd yn gysylltiedig â bwyd, ond hefyd, manteision heb fod yn gysylltiedig â bwyd yn rhestr eu manteision:



**“Rhannu cyfrifoldebau coginio mewn ffyrdd sy’n canolbwyntio’n fwy ar y gymuned. Yn gallu rhannu’r baich o fynd i’r archfarchnad afferyllfeydd yn ystod cyfyngiadau’r cyfnod clo.  Yn gallu swmp-brynu bwyd. Argaeledd seilwaith ar gyfer gweithio gartref, megis peiriannau argraffu a band eang cyflym iawn.”**

Yn eu tro, roedd y manteision ymarferol hyn weithiau yn mynd law yn llaw gyda nodi manteision ariannol penodol, ac yn arbennig, y dybiaeth bod cynlluniau CCLH yn cynnig mwy o sefydlogrwydd a lle i symud pe bai preswylydd yn colli incwm.  Yng ngeiriau un cyfranogwr yn y gwaith ymchwil, “fel tenantiaid preifat, byddem wedi dioddef mwy o ansicrwydd, o leiaf fel ein landlordiaid ein hunain, gallem fod mor hyblyg ag y bo modd gydag ôl-ddyledion rhent ac ati”.

Cyfeiriwyd at yr agwedd fanteisiol hon gan ymatebwyr eraill mewn rhannau eraill o’r wlad hefyd, er enghraifft, yn rhestr un preswylydd CCLH o’r manteision yr oeddent yn teimlo eu bod wedi eu cael trwy fod yn eu cynllun yn ystod y pandemig:

**“Mae’r manteision wedi cynnwys cwmni/rhyngweithio cymdeithasol, cymorth ymarferol (er enghraifft, siopa ar ran aelod sy’n gwarchod) a’r gallu i gynnig hyblygrwydd ynghylch rhent i aelodau sy’n cael trafferthion ariannol. Gallai rhai o’r manteision hyn fod wedi bod ar gael i unrhyw un sy’n byw mewn aelwyd a rennir, ond mae rheolaeth o’n sefyllfa ariannol wedi bod yn bwysig ac oherwydd ein bod yn rhan o grwp, roedd systemau a oedd yn bodoli eisoes, e.e. cyfarfodydd rheolaidd i hwyluso cymorth rhwng aelodau.”**

Yn yr un modd, roedd un preswylydd o'r un rhan o'r wlad wedi cyfeirio at effeithiau ariannol cadarnhaol yn eu rhestr o fanteision yr oeddent wedi'u profi yn ystod y cyfnod clo:

**"Cyfunoliaeth, rhannu stoc bwyd, rota coginio, roedd y ffordd y trefnwyd cyfarfodydd wedi galluogi trafodaeth am y risg. Diogelwch deiliadaeth. Hyblygrwydd ynghylch gohirio talu rhent. Byw gyda ffrindiau, ychydig ohonynt a oedd yn bresennol y tu allan i'r tai cydweithredol."**

Amlinellodd cyfranogwr arall o gynllun gwahanol sut yr oedd eu CCLH wedi "cyflwyno rhywfaint o gymorth i bobl yn y tai cydweithredol, y gallent fod yn dioddef mewn ffordd economaidd oherwydd y pandemig." Hyd y gwyddon nhw, nid oedd unrhyw un wedi manteisio arno eto, ond barnwyd ei fod yn gysur ei fod yno pe bai unrhyw un ei angen fyth.

Yn ogystal â'r manteision tybiedig penodol o fod mewn cynllun CCLH yn ystod y pandemig, nododd ymatebwyr fanteision y gallent fod wedi digwydd pe baent wedi bod yn byw mewn ffurfiau tai eraill hefyd. Er enghraifft, roedd llai o bwysau o ddydd i ddydd yn fudd posibl a nodwyd, nad oedd yn un unigryw, ac arsylwodd un cyfranogwr bod gan "nifer o aelodau fwy o amser yn y cynllun oherwydd y cyfnod clo a gwaith swyddfa yn y cartref (a oedd yn gyfyngedig weithiau). Nododd un ymatebwr arall bod y buddion yr oeddent wedi'u profi yn "rhannol oherwydd ein bod gennym lawer o le y tu allan a digon i'w wneud", rhywbeth a allai fod yn berthnasol mewn sefyllfaoedd perchnogaeth neu rentu eraill.

Ar yr un pryd, barnwyd bod 'digon i'w wneud' o ganlyniad i natur gydweithredol cynllun tai yr ymatebwr yn rhannol, ac roedd y cynllun penodol dan sylw yn un a oedd yn galluogi'r cyfranogwr i fanteisio ar lawer mwy o le y tu allan nad oeddent yn teimlo y byddent wedi gallu ei fforddio fel rhywun sy'n rhentu neu berchen-feddiannwr. Yn wir, mae'n ymddangos bod y ffaith y ceir mwy o debygolrwydd y ceir amodau ffisegol gwell o ran tai wedi bod yn fantais benodol arall o fyw mewn o leiaf rai cynlluniau CCLH yn ystod y pandemig.

Heb os, roedd yn ffactor yr oedd sawl cyfranogwr yn y sampl wedi cyfeirio ato, er enghraifft, un ymatebwr, a oedd wedi arsylwi sut “yr oeddem oll yn gallu parhau i weithio ac roedd gennym wasanaeth rhyngrwyd da a digon o le i weithio – credaf y byddai hyn wedi bod yn llawer anos mewn sefyllfa rhentu gonfensiynol”. Yn yr un modd, amlinellodd cyfranogwr o wahanol ran o’r wlad sut yr oedd mwy o fynediad i’r lle allanol wedi helpu aelodau eu cynllun, yn ogystal ag egwyddorion tai cydweithredol yn ehangach:

**“I rai ohonom, bu’r ardd gymunol yn hanfodol i’n lles, a chan gadw pellter cymdeithasol, byddem yn mynd i fyny mewn grwpiau bychain i ofalu am ein gardd. Yn fy marn i, mewn undod mae nerth.”**

Yn yr un modd, roedd ail gyfranogwr o wahanol ran o Gymru wedi tynnu sylw penodol at y lle allanol:

**“Mae gennym blant ifanc yma a chredaf mai nhw yw’r plant mwyaf ffodus yn y wlad. Mae ganddynt gymaint o le. Byddwn yn eu hannog i wahodd eraill, gan fod yn ystyriol o anghenion eraill. Pethau y dylem fod yn eu gwneud drwy’r amser; yr un egwyddorion, yn ystod amseroedd da ac amseroedd drwg.”**

Y fantais ar wahân olaf a nodwyd oedd y ffaith bod cysylltiadau gwell gyda’r gymuned leol i’w datblygu pan fyddai hi’n dod at gyfrannu i’r ymchwydd mewn help ar y cyd a oedd wedi digwydd ar draws pob math o dai yn ystod y cyfnod clo. Weithiau, arweiniodd canlyniadau’r cysylltiadau hyn ymhlith cynlluniau CCLH at ddull wedi’i seilio ar anghenion, ac roedd hyn yn debyg i’r dull a fabwysiadwyd gan ffurfiau eraill o ddarparwr tai ar ddechrau’r pandemig, lle’r oedd y rhai a helpwyd wedi cael eu hystyried fel derbynwyr cymorth goddefol, wedi’i seilio ar adnabod eu hangen o’r brig i lawr.[6]

Gellid dadlau bod y dull hwn wedi bod yn hollol briodol gyda chymaint o bobl mewn angen ar frys yn sydyn oherwydd y feirws. Yn wir, fe'i defnyddiwyd gan gynlluniau CCLH yn y sampl ar brydiau, yn enwedig y rhai yr oeddent yn ymuno â chynlluniau cymorth coronafeirws ehangach. Er enghraifft, adroddodd un ymatebwr sut yr oedd eu cynllun yn "gallu darparu llawer o gymorth i gymdogion ac roeddent yn rhan o ymateb COVID o gwmpas dwy ardal fawr o'r dref, gan ddosbarthu bwyd a phresgripsiynau".

Roedd cynlluniau CCLH eraill yn gallu mabwysiadu dull gweithredu tuag at yr argyfwng a oedd ychydig yn fwy seiliedig ar asedau, law yn llaw â'r gwaith brys hwn. Fel yr amlinellodd ymatebwr o gynllun arall:

**"Un peth cadarnhaol fu mwy o gysylltiadau gyda'r gymuned leol wrth i ni gymryd rhan mewn cynlluniau amrywiol megis dosbarthu nwyddau groser i unigolion agored i niwed a chynllun tyfu i gynhyrchu bwyd ar gyfer bylchau cyflenwi posibl dros y misoedd nesaf."**

Yn yr achos hwn, roedd y syniad mwy hirdymor ac yn fwy o'r gwaelod i fyny ac yn seiliedig ar asedau o'r cynllun tyfu wedi gweithio ochr yn ochr â'r ymateb dosbarthu nwyddau groser brys wedi'i seilio ar anghenion, ac efallai ei fod yn arwydd o'r elfennau ychwanegol y gallai cynlluniau CCLH eu dwyn i'r frwydr yn erbyn COVID.

Yn gyffredinol, felly, roedd preswylwyr CCLH yn barnu bod amrediad o fanteision wedi codi o ganlyniad i'r ffaith eu bod wedi bod yn byw mewn CCLH yn ystod pandemig COVID, yn hytrach nag unrhyw fath arall o dai. Fel gydag unrhyw brofiad, fodd bynnag, gwelwyd eithriadau i'r rheol gyffredinol hon, ac roedd angen ystyried unrhyw anfanteision posibl cyn ffurfio unrhyw farnau terfynol am y profiad cyffredinol hwnnw.



## ASTUDIAETH ACHOS #1: Bywyd mewn CCLH yn ystod y Pandemig (Trefol)

“Roedd llawer o gymorth cymunedol yn ystod y cyfnod clo, a defnyddiom y cylchlythyr a ddosbarthir er mwyn annog pobl i gynorthwyo ei gilydd. Mae gennym safle mawr a digon o fynediad i le arall hefyd er mwyn gwneud ymarfer corff y tu allan.”

“Ceir gwirfoddolwyr sy’n hapus i gynorthwyo pobl sy’n gwarchod. Cynhelir nifer o grwpiau cymunedol yn ein cynllun. Mae gennym restr hir o gyflenwyr bwyd lleol, a byddai modd ffurfioli hyn yn fwy ar gyfer y gaeaf i ddod.”

“Dan y trefniant rheoli blaenorol, cyflawnwyd yr holl waith trwsio gan fasnachwyr a oedd yn dod o fannau pell i ffwrdd ac arferent dorri corneli – dim ond un lifft oedd yn gweithio. Ffurfiodd y lesddeiliaid eu trefniant cymryd drosodd eu hunain i roi sylw i hyn. Rydym wedi delio gyda’r safle, y lifftiau, y glanhau ac mae gennym arian yn y banc nawr. Rydym yn cyflogi yn hytrach na chontractio staff cynnal a chadw a glanhawyr i mewn.

“Rydym wedi cael brwydrau cyfreithiol gyda’r rhydd-ddeiliad, y maent wedi bod yn gymhleth ac yn gostus iawn. Gwelir camgymhariad llwyr rhwng modelau busnes. Rydym yn gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithredu rhai o ganfyddiadau Comisiwn y Gyfraith y mae angen eu trosi i ddeddfwriaeth newydd.”

“Mae pob fflat wedi’u llenwi. Ceir nifer o gyfleusterau cymunol a mwynderau ar y safle. Bu’n rhaid i’r rhain gau.”

“Rydym wedi ailagor y cyfleusterau wrth i un fflat/un swigen eu defnyddio ar y tro, ond mae’n rhaid i ni eu glanhau i gyd rhwng pob un a cheir mwy o alw nag y gellir ei fodloni. Rydym wedi gwario mwy ar lanhau gan gynnwys drysau, drysau tân, grisiau, lifftiau ac ati. Mae ychydig yn haws nawr gan bod pobl yn gwneud llai ac yn treulio mwy o amser gartref, mae gan rai fflatiau falconïau a gwnaethpwyd mwy o ymdrech i ddefnyddio’r lle y tu allan, trin y gwelyau blodau ac ati.”

# 3.Byw mewn CCLH yn ystod COVID: Effeithiau Negyddol

**"Mae gwahanol ddehongliadau o'r rheolau wedi golygu y bu hi'n anodd gwneud a chadw at benderfyniadau a wnaethpwyd ar y cyd, ac ni fyddai hyn yn rhywbeth negyddol wrth fyw mewn ffurf traddodiadol o ran tai, gan bod llai o bobl i ymgynghori â nhw."**

**Preswylydd CCLH, 1+ blwyddyn mewn cynllun**

Y peth cyntaf i'w nodi yn yr adran hon, o'i chymharu gyda nifer gyffredinol yr effeithiau cadarnhaol yn erbyn ffurfiau tai eraill a nodwyd gan breswylwyr CCLH mewn perthynas â'r pandemig, yw y bu nifer gyffredinol yr anfanteision a nodwyd yn llawer llai. Fel y dywedodd un ymatebwr mewn perthynas â'r feirws: "Profwyd popeth i'w dorbwynt, ond rydym yma o hyd ac yn edrych ymlaen".

Yn wir, roedd cyfanswm yr effeithiau negyddol tybiedig a adroddwyd gan breswylwyr yn brin un rhan o dair o gyfanswm y manteision a adroddwyd.


Gan rannu nifer fach yr anfanteision tybiedig a adroddwyd yn ôl math, roedd y broblem fwyaf yn ymwneud â'r anawsterau mwy a dybiwyd wrth gytuno ar gadw pellter cymdeithasol neu reolau eraill y cyfnod clo, fel y mae'r graff canlynol yn cofnodi:



More difficult to agree social distancing / lockdown rules



Harder to shield (i.e where facilities are shared)



Greater challenges running household day to day (when social interaction reduced)



Higher likelihood of household conflict support needs

Gan ffurfio bron i hanner yr holl effeithiau negyddol a adroddwyd, mae'n ymddangos bod y cymhlethdodau a oedd yn deillio o'r ffaith bod aelwydydd o faint mwy mewn cynlluniau CCLH yn gyffredinol, wedi creu anawsterau mewn lleiafrif o achosion. Adroddodd un ymatebwr, er enghraifft, "ei bod hi wedi bod yn anodd creu 'swigod' effeithiol gyda'r mannau a rennir, ac ati, a'r plant yn arbennig". Adroddwyd rhywbeth tebyg gan ail ymatebwr o gynllun arall:

**"Rydym yn dy cymdeithasol iawn. Fel arfer, byddem yn cael gwesteion yn galw yn aml iawn. Mae rhai pobl yn dymuno gweld pethau'n dychwelyd i fel yr oeddent yn gynt nag eraill. Pe byddwn yn byw ar fy mhen fy hun, byddwn i yn penderfynu pa gyflymder yr hoffwn deithio."**

Roedd trydydd ymatebwr hyd yn oed yn fwy penodol wrth briodoli'r anfantais hon i CCLH yn uniongyrchol, yn hytrach na'r ffaith nad oeddent yn byw ar eu pen eu hunain yn unig (fel sy'n fwy cyffredin mewn ffurfiau tai mwy confensiynol).

Disgrifiont y broblem yr oeddent wedi ei hwynebu fel a ganlyn:

**"Bod yn debycach i deulu (ond yn agosach), ond heb unrhyw hierarchaeth ac yn ei chael hi'n anodd gwneud penderfyniadau ynghylch risg, gyda phobl yn eithaf pell o'i gilydd ac yn ofidus iawn a than cryn dipyn o straen. Mewn tai traddodiadol, mae pobl yn cael eu clymu ynghyd yn llai ac maent yn llai cyfrifol."**







Wrth gwrs, mae'n bwysig peidio rhamantu profiad y cyfnod clo o fyw mewn ffurfiau eraill o dai ychwaith, boed hynny yn berchen-feddianwyr preifat, yn dai cymdeithasol nad ydynt yn rhai CCLH neu'r sector rhent preifat. Mae cryn dipyn o dystiolaeth sy'n ymwneud â'r pandemig yn awgrymu ei fod wedi bod yn gyfnod anarferol o heriol ar gyfer bron pawb i raddau mwy neu lai, waeth pa ffurf o dai y maent wedi byw trwy'r profiad ynddo. Mae hyn yn rhannol oherwydd y heriau newydd i bob aelwyd yn deillio o ofynion nas gwelwyd eu tebyg erioed o'r blaen i gadw pellter cymdeithasol.

Fel y mae un adroddiad ymchwil ymhlith nifer wedi amlinellu:

**"Mae cadw pellter cymdeithasol yn mynnu bod aelodau'r aelwyd yng nghwmni ei gilydd am gyfnodau estynedig, gyda lle personol cyfyngedig yn aml. Ymhellach, mae'r gweithgareddau y mae unigolion yn eu cyflawni mewn mannau eraill yn digwydd yn y cartref. Gyda'r rhan fwyaf o ysgolion ar gau, mae plant yn cael eu haddysg yn y cartref, ac mae rhieni yn gyfrifol am oruchwylio addysg ac amser hamdden y plant. Mae nifer o oedolion yn gweithio gartref hefyd, yn aml heb le tawel dynodedig. Mae eraill wedi colli eu swyddi, a gwelir y straen ariannol cyfatebol, neu mae gofyn iddynt fynd allan i gyflawni swyddi sy'n rhoi eu haelwydydd mewn perygl o ddioddef haint."[7]**



Felly, mae'r un adroddiad yn dod i'r casgliad:

**"Yn fyr, mae pandemig COVID-19 yn creu sefyllfa yn y cartref lle y gwelir potensial aruthrol i greu gwrthdaro wrth i aelodau'r aelwyd dreulio oriau di-ben-draw yng nghwmni ei gilydd mewn man ffisegol cyfyng, gan ddelio gyda digwyddiad sy'n peri straen."[8]**

Hyd yn oed i'r rhai sy'n byw ar eu pen eu hunain, ac felly heb yr aelwyd o faint mwy y mae CCLH yn tueddu i'w ddwyn, byddai'n rhaid iddynt fod wedi pwyso a mesur unrhyw gyswllt gyda'r byd y tu allan a sicrhau cydbwysedd rhyngddo a'r risg dybiedig trwy gydol y pandemig. Felly, mae'n debygol y bydd rhai pobl, waeth beth yw eu ffurf tai neu faint eu haelwyd, na fyddant wedi cael o leiaf rhywfaint o brofiad o naill ai gwrthdaro mewnol yn eu hunain, neu wrthdaro allanol uniongyrchol gydag eraill, pan ystyrir gofynion ynghylch cadw pellter cymdeithasol a rheolau'r cyfnod clo.

Er hyn, mae'n bwysig cydnabod bod sawl ymatebwr wedi nodi ochr arall y geiniog o hyd i'r anfantais dybiedig gyda CCLH o ran y ffaith ei fod yn fwy tueddol o feithrin diwylliannau aelwyd sy'n gyfarwydd gyda delio gyda gwrthdaro. Roedd hyn ar ffurf tybiaethau o debygolrwydd uwch o bosibl o fod angen cymorth i ddatrys gwrthdaro yn yr aelwyd. Unwaith eto, gallai hyn gael ei ystyried fel canlyniad naturiol i faint aelwyd CCLH sy'n fwy yn gyffredinol, ac roedd hyn yn bendant yn broblem i nifer fach o gyfranogwyr yn y gwaith ymchwil, megis yn yr achos canlynol a adroddwyd gan un ymatebwr a oedd yn bwriadu gadael eu cynllun o ganlyniad:

**"Gwelwyd gwahaniaethau arwyddocaol yn ymwneud â'r rhywiau yn dod i'r amlwg yn ystod y cyfnod clo, gyda dynion (gwyn) yn teimlo'n ddig am y cyfyngiadau i'w bywydau a chan ymddwyn mewn ffordd a oedd yn cynnwys gormod o risg, a menywod yn gyfarwydd gyda chyfyngiadau ond yn rhy wrth-risg."**

Yn ôl y cyfranogwr dan sylw, yr achosion hyn o wrthdaro yn ystod y cyfnod clo oedd y rhai "nad yw prosesau cydweithredol wedi gallu eu datrys mewn ffordd ddigonol".

At ei gilydd, nid oedd ymatebwyr wedi adrodd am wrthdaro ar y lefel hon mewn unrhyw niferoedd arwyddocaol, ond hyd yn oed lle'r oedd yr achosion hynny o wrthdaro wedi cael eu rheoli'n llwyddiannus, mae'n ymddangos bod y pandemig wedi ffurfio prawf pendant o'r egwyddorion a'r arferion cydweithio naturiol a'r meintiau aelwydydd mwy sy'n cynnig sylfaen ar gyfer model CCLH. Fel y dywedodd un ymatebwr:

**"Mae rheoli risg ar y cyd wedi bod yn anodd ac mae wedi peri straen, gyda gwahanol bobl mewn gwahanol fannau ar raddfeydd risg, ac ati. Y newid mwyaf yw'r ffaith bod cymuned wedi ymddatod."**

Roedd eraill hefyd wedi cyfeirio at y ffordd yr oedd lefelau cydweithredu yn codi a gostwng yn ystod y cyfnod clo cyntaf. Adroddodd un preswylydd CCLH, er enghraifft, "yr oedd gwir ymdeimlad o gyd-gefnogaeth ar ddechrau'r cyfnod clo, ond rydw i'n teimlo bod hwn wedi chwalu rhywfaint, er bod cryn dipyn o gymorth da yn parhau i ddigwydd rhwng aelodau".

Mewn cyferbyniad, roedd ymatebwr arall, o ran arall o'r wlad, wedi profi'r newid y ffordd arall:

**"Roedd y pandemig wedi creu ansicrwydd ymhlith aelodau'r cwmni cydweithredol ynghylch lefel y rhybudd/cadw pellter cymdeithasol (e.e. ai un aelwyd/cymuned fawr ydym neu a ydym yn gymuned o aelwydydd ar wahân?); bellach, rydym yn dychwelyd i'r hyn yr arferem fod yn flaenorol, ac mae gennym fwy o ymwybyddiaeth o gadw pellter, hylendid, ac ati."**



Yn wir, roedd trydydd ymatebwr a soniodd am y mater wedi ei gysylltu gyda'r cam o ymlacio rheolau'r cyfnod clo, yn hytrach na gorfodi'r rheolau hynny yn y lle cyntaf:

**"Wrth i'r cyfnod clo lacio, daeth hi'n anos cytuno fel grwp sut y byddem yn dechrau llacio ein hamodau ein hunain. Pan oedd y cyfnod clo mewn grym yn llawn, roeddem yn deall y rheolau ac yn cadw atynt, ond wrth gwrs, gwelwyd gwahaniaeth barn wrth i'r cyfnod clo lacio, ynghylch yr hyn y dylem ei wneud."**

Er bod eu niferoedd yn gymharol fach, efallai nad yw achosion fel hyn wedi cael eu helpu gan y ffordd y bu ffurfiau traddodiadol o lywodraethu CCLH – cyfarfodydd wyneb-yn-wyneb ffurfiol a rhyngweithio cymdeithasol bob dydd anffurfiol – yn fwy heriol oherwydd y feirws a'r cyfyngiadau dilynol ar gyswllt dynol. Yn wir, tynnodd sawl un o'r cyfranogwyr yn yr ymchwil sylw at broblem y heriau mwy o redeg yr aelwyd pan oedd cysylltiadau cymdeithasol arferol wedi cael eu rheoli. Fel y soniodd un, "mae cael cyfarfodydd dros Zoom yn iawn, ond nid yw yr un fath heb gymaint o ryngweithio damweiniol neu grynoadau cymdeithasol". Neu, yng ngeiriau un arall, "nid ydym wedi cyfarfod fel grŵp, a nawr, ceir rhywfaint o dystiolaeth o ôl-groniad o'r trafodaethau y mae angen iddynt ddigwydd". Soniodd trydydd cyfranogwr am y mater hefyd, er eu bod yn fwy cadarnhaol am yr effeithiau yr oedd wedi'u cael:

**"Nid ydym wedi gallu cynnal cyfarfodydd dan do wyneb-yn-wyneb arferol, gan ddibynnu yn lle hynny ar e-bost a Zoom, ond efallai y byddai rhai yn dadlau na fu hyn yn golled fawr, gan ei fod wedi ein gorfodi i gadw pethau'n syml."**

Ar lefel ymarferol hefyd, roedd effeithiau tybiedig yr aelwydydd mwy o faint na'r maint cyfartalog a welir mewn unrhyw gynllun CCLH, wedi canfod adlais mewn adborth arall gan nifer fach o breswylwyr, er enghraifft ynghylch yr anawsterau mwy o warchod. Fel y dywedodd un ymatebwr:

**“Byddwn i’n dweud mai hon yw’r unig broblem o bosibl, y gallech wynebu mwy o risg. Os bydd yn rhaid i’r rhai dros 50 oed warchod yn ystod unrhyw achos yn y dyfodol, fel y soniwyd, byddai hyn yn anos i’r ty ddelio ag ef.”**

Yn olaf, o ran yr effeithiau negyddol, fel gyda’r effeithiau cadarnhaol, ar gyfer pob tuedd gyffredinol yn y data, roedd wastad o leiaf un eithriad y gallai brofi’r rheol neu beidio profi’r rheol. Dangoswyd hyn orau efallai gan achos un ymatebwr a oedd yn byw mewn cynllun cydweithredol, ond a oedd yn teimlo nad oedd eu math o dai wedi gwneud unrhyw wahaniaeth y naill ffordd neu’r llall, yn gadarnhaol neu’n negyddol, i’w profiad o’r pandemig, Roedd yr ymatebwr dan sylw wedi “canfod yn ystod y cyfnod yr wyf wedi byw yma nad oes gan nifer o’r cyd-berchnogion unrhyw syniad neu fawr ddim o syniad beth ydyw”, felly, er bod y cyfranogwr wedi cael rhywfaint o gyswllt gyda phreswylwyr eraill yn y bloc, bydd eu profiad “wedi bod yr un fath i bawb yn y pandemig hwn”.

Yn gyffredinol, roedd nifer gyffredinol y manteision o fod mewn CCLH yn ystod y pandemig, yn hytrach na bod mewn ffurf fwy confensiynol o ran tai, wedi gwrthbwyso nifer yr anfanteision a nodwyd yn sylweddol iawn, ac mae’n siŵr mai hwn yw’r un canfyddiad pwysicaf i ddod allan o’r ymchwil hwn.

Fel y mae’r data ansoddol sy’n sail i’r canfyddiad meintiol hwn yn nodi’n glir, fodd bynnag, roedd heriau o hyd yn deillio o natur cydweithredol ac a arweinir gan y gymuned o’u cynlluniau, y bu’n rhaid i breswylwyr CCLH eu goresgyn yn wyneb COVID. Felly, mae’r adran nesaf yn ystyried yr anghenion cymorth posibl a nodwyd gan breswylwyr o ganlyniad i’w profiadau, ynghyd â’r gwersi posibl yr oedd cyfranogwyr yn yr ymchwil yn teimlo eu bod wedi’u dysgu o fyw yn CCLH yn ystod y pandemig.

## ASTUDIAETH ACHOS #2: Bywyd mewn CCLH yn ystod y Pandemig (Trefwr)

“Mae’r holl bethau cadarnhaol yn eu lle o hyd, cynefindra â seilwaith a phrosesau cyfunol – ceir manteision. Yn gynnar ym mis Mawrth, nid oedd aelodau yn glir am yr hyn a oedd yn digwydd. Cawsom fwydydd cymunol a gwnaethom archeb fwyd cymunol mawr, felly roedd gennym ddiogelwch o ran bwyd.”

“Byddai modd ei ddisgrifio fel ‘pandemig cyntaf pawb’. Rydym yn cael sgyrsiau na fu’n rhaid i ni eu cael o’r blaen, pawb yn gwneud camgymeriadau, mae maddeuant a hyblygrwydd yn bwysig.”

“Datblygom bolisi caledi ariannol fel y gallem oedi neu ganslo rhent, ac mae gennym bolisi caledi cyffredinol nawr sy’n cyfeirio at y pandemig ond nad yw ar gyfer y diben hwnnw yn unig. Mae hyn wedi bod o gymorth mawr i rai aelodau.”

“Mae pethau i fyny ac i lawr o ganlyniad i heriau rheoli risg ar y cyd, nid ydym fyth wedi gorfod gwneud hyn o’r blaen ac mae’r aelodau mewn gwahanol fannau. Rydym yn byw gyda’n gilydd fel un teulu ac rydym yn gorfod delio gyda’r rheoliadau a’r canllawiau a’r newidiadau iddynt a’u dehongliad.”

“Ceir diwylliant o holi yn erbyn diwylliant o ddyfalu, sy’n berthnasol iawn i ni, mae rhai pobl yn fodlon gofyn a chlywed na, ac ni fydd eraill byth yn gofyn os nad ydynt yn debygol o gael ateb cadarnhaol, a byddant yn ceisio cael cynnig. Felly ceir dau ddiwylliant – rhai yn uniongyrchol a rhai yn gynnil ac yn holi mewn ffordd anuniongyrchol. Llafur emosiynol yw hwn; mae’n cymryd amser, yr holi a’r dyfalu.”

“Felly y gwir fater i ni yw’r dynameg grŵp rhyngbersonol, nid yw’n ymwneud â phethau ymarferol fel morgais, yswiriant a PPE.

Ychwanegom gyfarfodydd ychwanegol, ond rydym yn cyfarfod llai erbyn hyn, gwelwyd rhai pobl yn mynd yn flin gyda'i gilydd, felly bu newidiadau, ni chyfarfu'r un set o bobl.  Rydym yn cael cymorth cyfryngu."

"Fe'n gwelwyd fel rhai agored yn y gymuned, er enghraifft fel man gollwng.  Roeddem yn rhywle braf i'w gael yn ystod y cyfnod clo – daethom yn ganolfan ganolog ar gyfer cymorth cydfuddiannol.  Roeddem yn fwy agored, fel canolfan gymdeithasol a man cymdeithasol er mwyn cynorthwyo'r gymuned ehangach."

"Ar gyfer tai a rennir traddodiadol a chyd-fyw mewn unedau ar wahân, roedd y rheoliadau a'r canllawiau yn awgrymu ffyrdd y gall pawb drin eu hunain fel aelwydydd unigol, ond rydym ni yn fwy cymunol ac yn fwy fel teulu – rydym yn grŵp o bobl, nid unigolion.  Y broblem yw na roddir ystyriaeth i aelodau tai cydweithredol sy'n byw mewn cartref a rennir o ran y canllawiau – maent i gyd wedi'u gosod ar gyfer teuluoedd niwclear felly mae'n rhaid i ni ddehongli'r canllawiau."

"Nid ni yw'r unig gynllun tai cydweithredol sy'n profi hyn – a fyddai Canolfan Cydweithredol Cymru yn gallu bod yn ddefnyddiol yma?  Pe bai egwyddorion gweithredol yn cael eu datblygu, gallai'r rhain helpu tai cydweithredol bychain a chynlluniau tai a rennir, y ceir miloedd ohonynt. Pe byddem yn cael mynediad i ganllawiau o'r fath, byddem yn lledaenu'r wybodaeth hon i'r cynlluniau tai eraill yn yr ardal ac i'r tai cydweithredol eraill gerllaw."

"Rydym yn gwybod bod Canolfan Cydweithredol Cymru yno, sydd wastad o gymorth."

# 4. Anghenion Cymorth Ychwanegol a Nodwyd a Gwersi a Ddysgwyd

**"Symud mwy o bobl i sefyllfaoedd diogel gyda rhai o'r manteision neu'r holl fanteision ychwanegol a brofais yn ystod y cyfnod hwn fyddai canlyniad gorau yr amser hwn. Fel y gall pobl fyw gyda llai o ofn a chael nerth cymuned o'u cwmpas. Os bydd hyn yn digwydd, bydd pobl yn teimlo'n fwy ffyniannus a byddant yn gallu cyfrannu'n fwy i'w cymuned. Bydd y pandemig yn ei gwneud hi'n anos i grwpiau gyflawni hyn, felly rydw i'n credu bod angen i Ganolfan Cydweithredol Cymru weld sut y gall helpu."**

**Preswylydd CCLH, 5+ mlynedd mewn cynllun**

Fel gyda'r agweddau negyddol ar fyw mewn cynllun CCLH yn ystod y pandemig, wrth ystyried yr anghenion cymorth ychwanegol a nodwyd oherwydd y coronafeirws, mae'n werth nodi, yn gyntaf oll, bod tua dau o bob tri ymatebwr wedi nodi o leiaf un peth yr hoffent gael mwy o gymorth gydag ef.

Er nad oedd tua un o bob tri ymatebwr yn teimlo bod yr argyfwng wedi arwain at unrhyw anghenion cymorth mwy ar gyfer eu cynllun (yng ngeiriau un ohonynt, "Rydw i'n credu ein bod i gyd wedi ymdopi'n dda iawn, fel unigolion ac fel cymuned"), roedd rhan fwyaf y cyfranogwyr yn y gwaith ymchwil wedi nodi o leiaf un agwedd yr hoffent gael mwy o gymorth gyda hi wrth symud ymlaen.

O bell ffordd, roedd yr angen mwyaf cyffredin a nodwyd yn ymwneud â materion ariannol. Yng ngeiriau un ymatebwr, "hoffem weld rhwydweithiau cymorth mwy gweithgar, ffynonellau cyllid ehangach a mwy o fannau i droi atynt er mwyn datrys problemau".

Roedd yr ymatebwr a ddyfynnwyd ar ddechrau'r adran hon yn adleisio hyn hefyd:

**"Nid oes unrhyw un wedi colli eu swydd hyd yn hyn o ganlyniad i'r pandemig, ond gallai hynny fod yn broblem bosibl i dai cydweithredol, a chymorth ynghylch hawlio budd-dal tai, cyngor ynghylch gwyliau morgais, cymorth cydfuddiannol o fewn a rhwng tai cydweithredol os yw aelodau'n cael problemau. Credaf y bydd pethau'n cael eu datgelu yn sgîl hyn os bydd pobl yn colli eu gwaith neu os na fyddant yn gallu sicrhau gwaith. Credaf bod rôl i Ganolfan Cydweithredol Cymru wrth gynorthwyo pobl i sicrhau tenantiaethau diogel a chymorth cydfuddiannol yn erbyn bygythiad troi allan a cholli incwm yn ystod cyfnodau anodd."**

Mwy o gymorth ariannol oedd y broblem fwyaf i ymatebwyr mewn rhannau eraill o'r wlad hefyd, er enghraifft, safbwynt y cyfranogwr canlynol yn y gwaith ymchwil wrth adrodd am y mesurau yr oedd eu cynllun wedi llwyddo i'w gwneud yn ystod y pandemig:

**"Llwyddom i ddarparu cymorth i breswylwyr a fu'n dioddef caledi ariannol yn ystod y cyfnod clo ac ati, trwy fod yn hyblyg am ein taliadau. Byddai help ariannol wedi golygu y gallem fod wedi mynd gam ymhellach wrth ddarparu cymorth o'r fath."**

Ychwanegodd yr un cyfranogwr y cais penodol canlynol hefyd:

**"Pan fydd yr argyfwng yn dod i ben, byddai o gymorth gweld bod grantiau cymunedol bychain ar gael, er mwyn helpu i dalu'r costau ychwanegol o ailgychwyn grwpiau cymunedol. Maent i gyd yn fudiadau gwirfoddol a byddant yn dymuno ailgychwyn yr holl weithgarwch hwn."**



Yn yr un modd, mynegwyd teimladau tebyg gan ymatebwr o wahanol gynllun yn yr un rhan o'r wlad, gan nodi "dechreuom gyflwyno grant ar gyfer ein gardd gymunol, hoffem gael help gyda pethau felly". Roedd cymorth ariannol yn fater a nodwyd gan ymatebwyr mewn rhannau eraill o Gymru hefyd, yr oedd un ohonynt wedi nodi bod eu cynllun wedi gofyn am ostyngiad i'w taliadau morgais yn gynnar, ac y cytunwyd i'w cais, ac roedd hyn wedi rhoi ychydig yn fwy o hyblygrwydd ariannol iddynt.

Yn olaf, tynnodd ymatebwr arall sylw at broblem ariannol benodol iawn wrth iddynt nodi anghenion cymorth, nas rhoddir sylw iddi ar hyn o bryd yn eu barn nhw:

**"Pan ddechreuodd y pandemig, roeddem hanner ffordd trwy'r prosiect adeiladu i drosi'r prif adeilad. Gan bod y gwaith o orffen yr adeilad wedi cael ei oedi, bydd yr incwm ar gyfer y prosiect yn cael ei oedi hefyd. Hyd y gwelwn i, nid oes unrhyw gymorth gan y llywodraeth yr ydym yn bodloni'r meini prawf ar ei gyfer. Byddai'n ddefnyddiol pe bai Canolfan Cydweithredol Cymru yn siarad o blaid tai cydweithredol, oherwydd ein bod yn aml yn methu cydymffurfio â'r meini prawf."**




O ran gwersi i'w dysgu, dylid nodi yn anad dim – fel gyda'r manteision a'r anfanteision tybiedig o fyw mewn CCLH yn ystod y pandemig yn gyffredinol – bod y rhain yn rhai cadarnhaol ar y cyfan, yn hytrach na rhai negyddol. Er enghraifft, aeth un ymatebwr, a oedd wedi amlinellu'r problemau a achoswyd gan y ffaith y bu'n rhaid stopio prosiect adeiladu eu cynllun oherwydd y coronafeirws, ymlaen i wneud y pwynt penodol bod y profiad "wedi bod yn heriol ac yn anodd, ond mewn nifer o ffyrdd, mae wedi atgyfnerthu fy nymuniad i fyw mewn tai cydweithredol, gan gydweithio a chynorthwyo ein gilydd".

Adroddodd ymatebwr arall hefyd am un o wersi'r pandemig, sef angen tybiedig am gydweithio agosach fyth rhwng cynlluniau CCLH:

**"Roedd y profiad cyfan wedi peri i ni deimlo'n agored iawn i niwed ac yn dymuno teimlo'n fwy cysylltiedig gyda thai cydweithredol eraill. Y pwynt yw ein bod wedi dod trwyddi, ond roeddem yn teimlo bod angen cymorth allanol arnom, ac roedd hi'n anodd dod o hyd i hwn. Ceir perygl haint os na bydd sefyllfaoedd o'r fath yn datblygu yn ddirwystr, ond ni allaf ddychmygu y byddai wedi bod yn well o gwbl unrhyw le arall."**

Gwers bellach a ddysgwyd gan gynllun nad oedd wedi cael profiad mor gadarnhaol, ac a oedd yn gorfod trefnu gwasanaeth cyfryngu rhwng aelodau o ganlyniad, oedd eu bod yn "falch nad yw Cymru mor ddiofal â San Steffan". Roedd gwersi eraill a nodwyd gan wahanol ymatebwyr yn cynnwys arsylwadau mwy cyffredinol, megis "y peth allweddol bob tro yw cyfathrebu da", ynghyd â gwersi ynghylch pwysigrwydd sicrhau "bod sianelau cyfathrebu ffurfiol yn eu lle gyda'r holl aelodau", yn ogystal â'r "angen i gyfuno teimladau a ffeithiau mewn cyfarfodydd, a meithrin ymddiriedaeth fel na fydd angen cyfarfodydd diddiwedd". Rhoddwyd y grynodeb fwyaf cynhwysfawr o'r mathau hyn o bethau i'w cofio yn deillio o argyfwng COVID gan un cyfranogwr penodol yn yr ymchwil:



**"Mae angen i bobl fod yn ymwybodol na allwch gymryd yn ganiataol y bydd eraill yn meddwl yn yr un ffordd, yn enwedig yn ystod cyfnod pan na fyddwch yn gallu ei fynegi, neu ei archwilio. Mae ystyried teimladau yn bwysig iawn. Sut allwn gadw cysylltiadau i fynd yn fewnol ac yn allanol heb unrhyw oleuni ar ddiwedd twnnel y pandemig eto?"**

Yn olaf, cododd y wers hefyd ei bod yn bosibl i rai cynlluniau CCLH hyd yn oed fethu dysgu gwersi o'r pandemig, y gallent fod yn ddefnyddiol, fel yr amlinellodd un ymatebwr yn fanwl:

**"Nid oeddem fyth yn gweld ein gilydd, ambell i helo mewn cyfarfodydd ar hap. Gallai'r cynllun fod wedi cael budd o gael cylchlythyr a galwadau fideo/Zoom y byddai pobl wedi gallu picio i mewn iddynt ar amser penodol. Byddai hynny wedi meithrin cynllun mwy cynhwysol. Oherwydd y collwyd y cyfleoedd hyn, roedd yn dibynnu ar ble'r oeddwn yn byw a phwy oedd fy nghymdogion. Roedd fy ffrindiau yn gallu cael sgwrs dros wal yr ardd. Roedd byw mewn fflat yn golygu bod hyn yn amhosibl. Credaf ein bod wedi colli cyfleoedd hyfryd i ymgysylltu â phobl yn ein cynllun, gan gynorthwyo ein gilydd i feithrin dealltwriaeth o'n gilydd ac o'r cynllun yn gyffredinol."**

O'i ystyried yn yn ei gyfanrwydd, felly, er ei bod yn ymddangos bod byw mewn CCLH wedi cyflawni rôl arwyddocaol wrth leihau effaith COVID i nifer o'r preswylwyr a oedd wedi cymryd rhan yn yr ymchwil hwn, mae'n amlwg bod nifer o wersi wedi cael eu dysgu hefyd, ac fe allai'r rhain gyflawni rôl defnyddiol wrth gynyddu ymdrechion cynorthwyo yn wyneb y feirws gan yr holl rai sydd â diddordeb yn natblygiad ac ehangu CCLH yng Nghymru.

## ASTUDIAETH ACHOS #3: Bywyd mewn CCLH yn ystod y Pandemig (Gwledig)

**CYFRANOGWR A:** "Os ydw i'n onest, roeddwn yn naïf ar y cychwyn. Mae rhannu cyfrifoldeb yn eich dwyn gymaint yn agosach, ni allwch fynd ati ar eich pen eich hun, rhaid i chi fod yn gallu sicrhau ei fod yn gweithio rhyngoch."

"Ceir rhyng-ddibyniaeth a cheir gwerth ychwanegol yn hynny. Mae'n deimlad rhyfedd, rhywbeth llwythol mewn ffordd hynafol ynghylch llwyddo a gweithio fel rhan o grŵp. Rhywbeth y byddwch yn ei gael trwy fod yn rhan o grŵp o bobl yn unig. Pan fydd pethau'n mynd yn dda, mae'n wych."

"Rydw i'n teimlo bod y tai cydweithredol wedi ein clustogi yn erbyn y pandemig gryn dipyn. Rydym mewn sefyllfa freintiedig. Rydym wedi bod yn iawn yma yn ystod COVID. Wrth gwrs, gwelwyd safbwyntiau amrywiol, mae rhai yn dilyn y drefn, roedd ymagwedd rhai eraill ohonom yn fwy didaro, gan ymddiried yn ein barn ein hunain, a chan barhau fel yr oeddem gynt ar y cyfan. Mae'n hollol ddibynnol ar y grŵp o bobl. Gallai fod wedi bod yn wael iawn pe na bai pobl yn deall y cysyniad mewn egwyddor ac mewn gwirionedd. Rydym wedi gallu ymddiried ym mhobl i fod yn synhwyrol."

**CYFRANOGWR B:** "Cefais fy nenu i'r cynllun am sawl rheswm. Bellach, rydw i'n teimlo cryn ryddhad fy mod yn byw yma. Byddwch yn cael y cyfle o hyd i ryngweithio gyda phobl, nid oes angen teimlo ar wahân. Symudodd un aelod i mewn yn fuan cyn i'r cyfnod clo gychwyn, daethant yma o ddinas fawr ac maent yn falch iawn nad ydynt yno o hyd. Efallai bod y cyfnod clo wedi bod yn wael, ond mae wedi bod yn dda yma."

"Mae cynlluniau tai cydweithredol a thai a arweinir gan y gymuned yn amrywio yn ôl pwy sy'n byw yno ac mae'r sawl sy'n byw mewn tai cydweithredol yn pennu pa mor dda y mae'n gweithio. Gyda synnwyr trannoeth, gallai cymorth ynghylch sut i gyfathrebu pan fydd hi'n anodd dod ynghyd fod wedi helpu. Byddai hynny wedi bod yn ddefnyddiol iawn. Gwelsom ychydig wybodaeth am hyn, ond roedd hynny yn nes ymlaen."

"Rydw i'n teimlo ei fod yn gyfle gwych i hyrwyddo tai cymdeithasol a thai cymunedol. Rydym wedi cael mwy o ymholiadau dros yr ychydig fisoedd diwethaf am y posibilrwydd o fyw yma, llawer yn fwy nag y byddem yn eu cael fel arfer. Bydd tai cydweithredol yn addas i'r ffordd newydd o weithio gartref. Mae gennym gyfrifoldeb cymunedol dros edrych allan a gofalu am ein haelodau."

# 5. Casgliad ac Argymhellion

"Trefnwyd cymorth cymunedol. Trefnwyd rhaglen glir ar gyer glanhau ac ati er mwyn sicrhau diogelwch. Sefydliadau cymunedol yn eu lle, felly mae'n hawdd trefnu cymorth arbennig i'r rhai sy'n gwarchod ac ati. Mae canolbwyntio ar aelodau yn golygu ein bod wedi mynd â'r gymuned gyda ni pan fu'n rhaid gwneud newidiadau amhoblogaidd (h.y. cau cyfleusterau hamdden). Byddai modd cyflawni'r rhain oll mewn unrhyw leoliad. Roedd ein cyswllt democrataidd ni wedi ei wneud yn haws."

Preswylydd CCLH, 3+ blynedd mewn cynllun





Er mwyn ffurfio rhai casgliadau o leisiau'r rhai a oedd yn byw mewn CCLH yn ystod pandemig COVID, ymhlith sampl y preswylwyr a gyfranogodd yn yr ymchwil hwn, nodwyd nifer yn fwy o fanteision nac anfanteision o fyw mewn cynlluniau CCLH yn ystod yr argyfwng, fel y mae'r cwmwl geiriau o'r termau y soniwyd amdanynt amlaf ar draws yr holl adborth – yn gadarnhaol neu'n negyddol – yn dangos.

Fel y mae'r dyfyniad yn crynhoi hefyd, roedd y manteision hyn yn aml yn rhai caled ac ymarferol. Roedd pethau fel cymorth ymarferol o ddydd i ddydd, llai o arwahanrwydd cymdeithasol ac unigrwydd, a gwell amodau byw ffisegol oll yn enghreifftiau o hyn, ynghyd â'r diogelwch ariannol gwell trwy'r pandemig a welodd preswylwyr CCLH o ganlyniad i'r ffurf tai yr oeddent wedi'i ddewis.  Mae'n ymddangos mai gwahaniaeth hollbwysig rhwng y mathau hyn o gymorth a'r ymdrechion mwy cyffredinol yn sgil COVID yr oedd preswylwyr mewn ffurfiau tai eraill wedi cael budd ganddynt, oedd nas cynigiwyd y ffurfiau cymorth hyn unwaith neu ddwywaith yn unig, neu hyd yn oed unwaith y mis neu unwaith yr wythnos yn ystod y pandemig mewn CCLH.  Yn hytrach, mewn CCLH, darparwyd y buddion hyn



yn barhaus, bob dydd ac mewn ffordd gynaliadwy, gyda'r holl fanteision a ddaw yn sgil diogelwch cymorth o'r fath.

Fodd bynnag, gwelwyd cryn dipyn o dystiolaeth yn ymddangos yn yr ymchwil hwn o fuddion mwy meddal a mwy strwythurol a sicrhawyd trwy fod yn byw mewn CCLH yn ystod y pandemig hefyd, buddion a oedd yn deillio o'r egwyddorion yr oeddent yn cynnig sylfaen i CCLH, nid ei strwythurau yn unig. Yn sicr, barnwyd bod rhywfaint o ddaioni wedi codi yn sgil yr argyfwng, neu o leiaf o'i gyfnod clo, ynghyd â'r holl bethau drwg. Rhestrodd un ymatebwr y manteision fel a ganlyn: "pob plentyn gartref, mwy o arddio a rhannu, grŵp WhatsApp yn ddefnyddiol iawn, digwyddiadau cymdeithasol lle y dilynwyd mesurau cadw pellter cymdeithasol, anerchiadau, cyfarfodydd, digwyddiadau cymdeithasol, llawer o barch a chyfrifoldeb". Roedd un arall, o gynllun arall, wedi nodi manylion rhai o'r manteision llai pendant i godi yn sgil y pandemig: "rhyngweithio, cydweithredu, cydweithio a chynorthwyo ein gilydd fu'r manteision."

Casgliad pwysig posibl arall sydd wedi deillio o'r ymchwil hwn yw bod preswylwyr mewn cynlluniau CCLH yn gyffredinol yn teimlo eu bod wedi gwneud yn well nag y byddent wedi ei wneud fel arall mewn unrhyw fath arall o dai, ar sail tystiolaeth y rhai a oedd wedi cymryd rhan. At hynny, barnwyd nad oedd hyn oherwydd ffactorau strwythurol yn eu ffurf tai a ddewiswyd yn unig, megis maint neu le neu pa mor agos ydynt i bobl arall, ond hefyd eu bod yn codi yn rhannol o leiaf o egwyddorion ac arferion CCLH, gyda'i draddodiadau o gydweithredu, trafod, parchu a rhoi cymorth i'w gilydd, a'r holl werthoedd eraill y seilir pob cynllun CCLH arnynt i raddau mwy neu lai.

O ran argymhellion, mae tri yn arbennig yn codi o'r dystiolaeth sydd wedi ymddangos yn ystod yr ymchwil hwn:



**Argymhelliad #1:** Bod Canolfan Cydweithredol Cymru a rhanddeiliaid eraill CCLH yn cymryd yr ymchwil hwn ac ymchwil arall, ac yn ei ddefnyddio i godi ymwybyddiaeth ymhellach o bwysigrwydd yr egwyddorion y seilir cynlluniau CCLH arnynt, a rôl yr egwyddorion hynny wrth gynyddu lefelau iechyd, lles a chydnerthedd cyffredinol ymhlith y bobl sy'n byw ynddynt.

Ar sail yr ymchwil hwn a'r darn o waith mwy a ddaeth o'i flaen, ceir corff cynyddol o dystiolaeth bod CCLH yn darparu manteision cymdeithasol, manteision economaidd a manteision eraill penodol i'r rhai sy'n byw ynddo o'i gymharu â ffurfiau tai eraill, mwy confensiynol. Fel y crynhowyd gan un ymatebwr: "Roedd bywyd yn gymaint gwell yma, rydw i mor ddiolchgar am dai a arweinir gan y gymuned – rydw i'n gwybod y byddai bywyd wedi bod yn wahanol iawn pe bawn wedi parhau fel yr oeddwn yn fy hen mywyd."

Ar y cyfan, mae'n ymddangos bod CCLH yn arwain at les corfforol a meddyliol gwell, a lefelau cydnerthedd uwch yn gyffredinol yn wyneb digwyddiadau fel pandemig y coronafeirws ar gyfer y rhai sy'n byw ynddo, o leiaf os gwrandawir ar fwyafrif helaeth y lleisiau yn yr ymchwil hwn. Er nad oedd hyn yn wir bob tro – nid yw pob cynllun yng Nghymru ar lefel lle y gall eu haelodau gael budd o'r manteision yr oedd rhan fwyaf y cynlluniau CCLH wedi eu dwyn i'w preswylwyr yn ystod y pandemig eto – ni welwyd eithriadau i hyn yn ddigon aml yn yr ymchwil hwn i wrthbrofi'r rheol gyffredinol. Mae'n ymddangos bod gwerthoedd sylfaenol CCLH wedi cyflawni rôl pwysig wrth angori'r canlyniadau hyn ym mywydau preswylwyr, ac mae'r gwerthoedd hynny yn annhebygol o newid, waeth beth fo'r digwyddiadau a welir yn y byd y tu allan.

Felly, dylai Canolfan Cydweithredol Cymru gymryd y casgliadau hyn a'u defnyddio er mwyn helpu i roi cyhoeddusrwydd pellach i'r gwerthoedd y seilir CCLH arnynt, yn ogystal â manteision byw ynddo, er enghraifft trwy ddatblygu ei gwaith cyfredol ymhellach er mwyn creu Siarter Tai Cydweithredol penodol sy'n amlinellu'r egwyddorion a'r manteision hyn, yn ogystal ag efallai llunio'r egwyddorion gweithredol COVID newydd ar gyfer CCLH, ceisiadau polisi a/neu ymgyrchoedd eraill y gallent helpu CCLH yng Nghymru i wireddu eu potensial llawnaf ag y bo modd.





**Argymhelliad #2:** Bod Canolfan Cydweithredol Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill yn y sector yn cynnal ymgyrch eiriolaeth benodol sy'n ceisio sicrhau na chaiff preswylwyr a chynlluniau CCLH eu gwahardd o fesurau cymorth ariannol COVID ac Ôl-COVID perthnasol, gan gynnwys pob agwedd ar system fudd-daliadau'r wladwriaeth.

Yr angen cymorth pennaf a nodwyd gan breswylwyr CCLH mewn perthynas â'u cynlluniau yn yr ymchwil hwn oedd angen ariannol. Er ei bod yn ymddangos bod cynlluniau CCLH wedi bod yn gryf iawn ar ddechrau'r pandemig wrth gynorthwyo eu haelodau'n ariannol yn ôl yr angen, gwelwyd rhywfaint o dystiolaeth o'r ffaith bod blinder yn dechrau gafael wrth i'r argyfwng barhau. Adlewyrchwyd hyn mewn agweddau unigol rhai cyfranogwyr hefyd. Fel yr arsylwodd un ymatebwr am eu hunain:

**"Ar ddechrau'r pandemig, rydw i'n credu yr oedd gennyf lawer o obaith, ac roedd yn teimlo fel pe bai rhai cyfleoedd gwych ar gael ac roedd bywyd yn eithaf ehangol. Bellach, rydw i'n teimlo fel y bydd bywyd yn anodd iawn i nifer fawr o bobl dros y blynyddoedd nesaf, ac rydw i'n teimlo'n llai gobeithiol."**

Ymhellach, hyd yn oed os yw'r mecanweithiau cymorth a sefydlwyd gan gynlluniau CCLH wedi gorfod cael eu defnyddio'n anaml yn unig gan eu haelodau ar y cyfan, gellir tybio bod hyn o leiaf yn rhannol oherwydd y cymorth arwyddocaol a fu ar gael gan y llywodraeth, naill ai'n uniongyrchol i unigolion ar ffurf taliadau ffyrlo, codiadau i neu estyniadau i fudd-daliadau fel y Credyd Cynhwysol, darpariaeth tâl salwch ychwanegol neu gynlluniau cymorth incwm newydd i'r hunangyflogedig, yn ogystal ag yn anuniongyrchol ar ffurf cymorthdaliadau cymorth busnes, benthyciadau ac ati.

Yn anffodus, fodd bynnag, mae'n ymddangos bod rhai anghydraddoldebau anfwriadol ond pwysig yn bodoli o hyd yn y system gyfredol, sy'n deillio o ddiffyg dealltwriaeth gan rai o benderfynwyr CCLH fel sector unigryw.  Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys yr anawsterau y mae rhai preswylwyr CCLH wedi eu hwynebu wrth geisio manteisio ar yr un ystod cymorth â phreswylwyr ffurfiau tai eraill, yn enwedig pan fydd ganddynt ecwiti go iawn neu enwol mewn cynllun CCLH, er enghraifft pan fyddant yn cael eu hystyried am fenthyciadau y maent ar gael yn ddigyfyngiad i denantiaid yn y sector preifat neu pan fyddant yn ceisio manteisio ar elfen tai y Credyd Cynhwysol.

Yn enwedig o ystyried y ffaith y cynhelir etholiadau i'r Senedd cyn bo hir, efallai mai gwneud mwy o feddwl fel sector nawr ynghylch sut y byddai modd llenwi bylchau yn y cymorth sy'n bodoli eisoes ac atal bylchau posibl yn y dyfodol, efallai trwy rannu problemau a wynebir a datrysiadau a ganfyddir yn fwy ymhlith yr holl randdeiliaid perthnasol, yw'r ffordd orau o sicrhau bod y sector mor barod ag y gall fod ar gyfer y dyfodol.  Yn enwedig o ystyried y pwysau ariannol tebygol a fydd ar bob agwedd ar gymdeithas yng Nghymru, bydd angen i raglenni fel Cymunedau'n Creu Cartrefi weithio'n galed os yw'r sector CCLH yn mynd i gael ei ehangu yng Nghymru ar hyd y llinellau y mae'r dystiolaeth gynyddol o'i effeithiau buddiol yn ystod cyfnodau da a drwg yn awgrymu y byddai'n ei deilyngu.



**Argymhelliad #3:** Bod Canolfan Cydweithredol Cymru, rhanddeiliaid allweddol eraill a chynlluniau CCLH eu hunain yn ymdrechu'n galetach i feithrin cysylltiadau agosach rhwng gwahanol gynlluniau CCLH yng Nghymru, yn enwedig ynghylch rhannu arfer gorau mewn perthynas ag ymatebion i COVID.

Yn ôl y preswylwyr sy’n byw ynddynt, mae’r maint aelwydydd cyfartalog mwy y mae cynlluniau CCLH yn eu dwyn yn gyffredinol o’u cymharu â’r rhai nad ydynt yn rhai CCLH, a’r dybiaeth ddilynol bod mwy o heriau i’w goresgyn o ran cytuno ar reolau ac ymddygiad, wedi ffurfio’r anfantais fwyaf arwyddocaol y mae cynlluniau CCLH fel sefydliadau wedi eu hwynebu o ganlyniad i’r pandemig. Felly, mae’n ymddangos bod mwy o gymorth yn y maes hwn – ar y cyd, rhwng gwahanol gynlluniau CCLH, yn ogystal ag yn allanol gan sefydliadau trydydd parti megis Canolfan Cydweithredol Cymru – yn hanfodol os yw cynlluniau CCLH yn mynd i fanteisio’n llawn ar y cynnydd mawr mewn diddordeb mewn ffurfiau byw mwy cymunol a ddaeth yn sgil pandemig y coronafeirws. Mae Canolfan Cydweithredol Cymru eisoes yn llenwi’r rôl hwn i raddau rhannol, ond ar sail tystiolaeth yr ymchwil hwn, byddai modd gwneud mwy o hyd, gan gynnwys gan gynlluniau CCLH eu hunain o ran rhwydweithio, ac estyn allan i’w gilydd, a chynorthwyo ei gilydd hyd yn oed yn fwy nag y maent yn ei wneud yn barod yn gyffredinol. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau yn ymgysylltu mewn ffordd agosach a gweithredol gyda rhwydweithiau cymorth sy’n bodoli eisoes megis rhaglen Cymunedau’n Creu Cartrefi Canolfan Cydweithredol Cymru.

Gallai’r cymorth hwn fod ar ffurf yr hyfforddiant ‘cyd-fyw mewn CCLH’ penodol a argymhellwyd yn yr ymchwil blaenorol ynghylch manteision tai cydweithredol a thai a arweinir gan y gymuned. Neu gallai fod ar ffurfiau newydd yng ngoleuni heriau hynod y pandemig. Er enghraifft, gallai hyfforddiant penodol ynghylch sut i wneud y defnydd gorau posibl o dechnoleg mewn sefyllfa CCLH fod yn fan cychwyn. Fel yr amlinellodd un cyfranogwr yn yr ymchwil:

**“Rhaid i chi ddarganfod ffyrdd creadigol o reoli’r busnes o fyw mewn tai cydweithredol yn ystod COVID-19. Mae rheoli’r salwch yn peryglu cyfaddawdu o ran ein ffordd o fyw ac mae’n rhaid i chi feddwl am ffyrdd creadigol o gwmpas hynny. Ei gadw’n fwy syml nag arfer. Ni ddylech oedi popeth. Canolbwyntiwch yn llwyr. Ymlaciwch am amserlenni. Peidiwch ag anwybyddu pethau, peidiwch cymhlethu pethau, symlrwydd yw’r peth allweddol, ewch ati i ddarganfod ffyrdd creadigol o ddelio ag anghenion gwahanol.”**

Mae'n ymddangos bod hwn yn gyngor doeth. Yn ogystal, mae'n ymddangos yn rhestr frawychus i unrhyw un cynllun geisio fynd i'r afael â hi ar ei ben ei hun yn llwyr. Yn oes COVID, felly, efallai mai'r angen pwysicaf un a welwyd oedd bod cynlluniau CCLH, waeth beth fo eu ffurf, yn aros yn agos i'w gwreiddiau a'u hegwyddorion, a'u bod yn dod yn agosach at ei gilydd nag erioed o'r blaen. Os gall unrhyw sector o'r farchnad dai wneud hyn, fodd bynnag, CCLH yw hwnnw; fel yr amlinellodd un llais olaf o'r gwaith ymchwil:

**"Os oes gennych chi gydbwysedd da o bobl sy'n rhannu'r un feddylfryd, efallai y byddwch yn anghytuno am rai pethau, ond gyda phobl sydd wedi ymrwymo i wrando, i gyfaddawdu, i siarad am y sefyllfa, pobl sy'n rhannu'r un egwyddorion, bydd pethau wastad yn iawn, Mewn cyfnodau da a drwg, bydd yn gweithio."**

Ystyried y gwersi a ddysgwyd o'r pandemig, a sicrhau bod y gwersi hynny'n cyflawni rôl lawn wrth greu'r byd newydd ar ôl y pandemig, a fydd yn dod i'r amlwg yn y diwedd, yw'r dasg bwysicaf sy'n wynebu'r holl rai sy'n byw, yn gweithio neu'n gysylltiedig mewn ffordd arall gyda thai cydweithredol ac a arweinir gan y gymuned nawr. Er gwaethaf heriau parhaus COVID, mae'r fan a'r lle yn gystal fan ac amser ag unrhyw un i gychwyn y broses honno.

**Dr. Leon Quinn**
Social Effectiveness Research Centre
(Tachwedd2020)



# Troednodiadau

[1] Gweler tudalen hafan Canolfan Cydweithredol Cymru, sydd ar gael trwy droi at: https://wales.coop/ <cyrchwyd Tachwedd 2020>.

[2] Canolfan Cydweithredol Cymru, 'Cymunedau sy'n Creu Cartrefi' ar gael trwy droi at: https://wales.coop/co-operative-community-led-housing/ <cychwyd Tachwedd 2020>.

[3] Gweler B. Parkinson, L. Quinn, A. Hrabowecky j a V. Williams, 'Assessing the Potential Benefits of Living in Co-operative and/or Community-Led Housing' (Canolfan Cydweithredol Cymru a Sefydliad Nationwide, Gorffennaf 2019), t.2, ar gael trwy droi at: https://wales.coop/assessing-the-potential-benefits-of-living-in-co-operative-and-or-community-led-housing-cclh/ <cyrchwyd Tachwedd 2020>.

[4] Sefydliad Nationwide, 'Cefnogi Tai a Arweinir gan y Gymuned', ar gael trwy droi at: http://www.nationwidefoundation.org.uk/our-programmes/backing-community-led-housing/ <cyrchwyd Tachwedd 2020>.

[5] Ibid.

[6] I weld enghraifft o'r dull hwn sy'n canolbwyntio'n fwy ar allbynnau, gweler adroddiad yr Ymddiriedolaeth Elusennol Cymdeithasau Tai i ymateb ei aelodau i argyfwng COVID – HACT/PlaceShapers, 'Places after the Pandemic Exploring social landlords' role in the future of places' (HACT, Medi 2020), t.8-9, ar gael trwy droi at: https://hact.org.uk/sites/default/files/PlacesAfterThePandemic_FINAL.pdf <cyrchwyd Tachwedd 2020>.

[7] Gweler, er enghraifft, V. Behar-Zusman, J. Chavez a K. Gattamorta, 'Developing a Measure of the Impact of COVID-19 Social Distancing on Household Conflict and Cohesion' yn Family Process Institute (Cyf. 59, Rhif 3/2020, t.1045-59), t.1045, ar gael trwy droi at: https://onlinelibrary.wiley.com/doi/epdf/10.1111/famp.12579 <cyrchwyd Tachwedd 2020>.

[8] Ibid.

[9] Mae'r astudiaeth achos hon yn seiliedig ar gyfweliadau ar wahân gyda dau aelod o'r un cynllun CCLH. Mae'r holl astudiaethau achos eraill yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar gyfweliadau gydag un aelod o un cynllun CCLH.

# Cysylltu

Os ydych yn awyddus i ddarganfod mwy am dai cydweithredol dan arweiniad y gymuned, rydym am glywed gennych. Rydym hefyd yn awyddus i siarad â sefydliadau, busnesau, grwpiau cymunedol neu gyrff cyhoeddus a hoffai gefnogi prosiectau tai cydweithredol dan arweiniad y gymuned.

**0300 111 505 0**
**co-op.housing@wales.coop**
**cymru.coop/tai-cydweithredol**

Mae Canolfan Datblygu a Hyfforddi Cydweithredol Cymru Cyfyngedig (yn masnachu fel Canolfan Cydweithredol Cymru) yn gymdeithas gofrestredig dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014, rhif 24287 R. Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn Saesneg. Mae ffurfiau eraill, megis mewn print bras neu braille, ar gael ar gais. Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Saesneg neu Gymraeg a'n nod yw darparu safon gyfartal o wasanaeth yn y ddwy iaith.

Wales Co-operative Centre
Canolfan Cydweithredol Cymru
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Nationwide Foundation
DEVELOPMENT TRUSTS ASSOCIATION WALES
CYMDEITHAS YMDDIRIEDOLAETHAU DATBLYGU CYMRU
Community Enterprise | Community Assets
Menter Gymunedol | Asedau Cymunedol